



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Gwasanaeth Gyrfaoedd
a Chyflogadwyedd
Careers and
Employability Service

Bywyd ar ôl BANGOR

Canllaw cyflym i'ch helpu i
gymryd eich camau nesaf

**Cefnogi
Graddedigion**





Mae'r gefnogaeth yn wych!
Bûm mewn gweithdai sydd wedi
rhoi hyder i mi

*Mae fy CV wedi **gwella'n fawr** diolch*
i'r cyngor a gefais, a llwyddais i
sicrhau interniaeth 3 mis

*Diolch i'r gefnogaeth, mi gefais i **swydd***
yn y maes sydd o ddiddordeb i mi



CYNNWYS

4. Cefnogi Graddedigion
5. Beth Nesaf?
6. Chwilio am Swyddi i Raddedigion?
7. Sgiliau ar Alw
8. Help gyda'ch CV
10. Aseidiadau Recriwtio ac Ymarfer Cyfweiliadau
11. Ystyried Astudiaeth Ôl-radd?
12. Myfyrwyr Rhyngwladol
13. Defnyddio LinkedIn
14. Byddwch Fentrus
16. Be' Nesa'
18. I ble'r aiff eich cymhwyster â chi?
20. Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr
21. Dychwelyd i Fangor ar Ymweliad?

Cysylltwch â ni



cefnogigraddedigion@bangor.ac.uk



www.bangor.ac.uk/gyrfaoedd

Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol



@PBcyflogadwyedd



Cyflogadwyedd Prifysgol Bangor

CEFNOGI GRADDEDIGION

Mae graddio'n garreg filltir gyffrous a phwysig i bawb. Gall fod yn gyfnod heriol hefyd a chithau'n ystyried y camau nesaf ac ymgeisio am swyddi a chyfleoedd eraill.

Rydym yn ymrwymo'n llwyr i'ch helpu chi lwyddo wrth symud ymlaen at yrfa raddedig a byddwn ar gael i chi am hyd at dair blynedd ar ôl i chi raddio.

Lle bynnag ydych chi ar y llwybr, rydym yn ymdrin â chynllunio gyrfaoedd, chwilio am swyddi a sgiliau gwneud ceisiadau, yn ogystal ag amrywiaeth o bynciau eraill i'ch helpu chi ddatblygu eich cyflogadwyedd fel a ganlyn:

- ▶ **Apwyntiadau un-i-un (yn y cnawd neu ar-lein)**
 - ▶ **Gweithdai a gweminarau**
 - ▶ **Mynediad at amrywiol adnoddau**



**Cefnogi
Graddedigion**

BETH NESAF?

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud i barhau neu ailgysylltu â ni fel Myfyriwr Graddedig yw gweithredu eich cyfrif Graddedig gyda CyswlltGyrfa trwy osod cyfrinair.

Cliciwch ar y ddolen a rhowch y cyfeiriad **e-bost personol** a roesoch i Brifysgol Bangor cyn i chi raddio.



careerconnect.bangor.ac.uk/unauth/graduate/forgotten-password



CHWILIO AM SWYDDI I RADEDIGION?

Rydym yma i helpu!

Os ydych yn chwilio am eich
swydd gyntaf ar ôl graddio,
cofiwch ddefnyddio **CyswlltGyrfa**.

Mae gwasanaeth chwilio am swydd ar-lein ar gael i holl raddedigion Prifysgol Bangor ac mae'n hysbysebu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer swyddi cyfredol, lleol a rhyngwladol. Gweithredwch eich cyfrif Graddedig fel uchod a diweddarwch eich proffil i adlewyrchu'r meysydd sydd o ddiddordeb i chi a'ch hoff leoliadau.



Trwy gofrestru â **CyswlltGyrfa** bydd gennych hefyd fynediad llawn at yr holl adnoddau sydd gennym i raddedigion.



SGILIAU AR ALW

Datblygwch eich sgiliau proffesiynol a'ch chyflogadwyedd gyda'n fideos ar-alw, 30 munud o hyd.

Mewngofnodwch i'ch cyfrif **CyswlltGyrfa** a chwiliwch am y Fideos ar y tab Adnoddau. *Mae hwn yn adnodd gan ddatblygwr allanol ac ar gael yn Saesneg yn unig.*

Mae'r pynciau'n cynnwys:

- ▶ Deall mwy am recriwtio
- ▶ Ymwybyddiaeth fasnachol
- ▶ Brandio Personol
- ▶ Canolfannau asesu
- ▶ Rheoli amser
- ▶ Rhwydweithio

A llawer mwy
careerconnect.bangor.ac.uk



HELP GYDA'CH CV

Fel un a raddiodd o Brifysgol Bangor, mae gennych fynediad unigryw at CareerSet, sy'n rhoi adborth ar unwaith ar eich CV, yn eich helpu chi nodi geiriau allweddol ac yn cynyddu eich siawns o lwyddo o wneud cais am swydd.

- ▶ **Sgorio Fy CV:** Sgorio CV gyda chymorth AI ac adborth personol sy'n ymwneud ag Effaith, Cyflwyniad ac Arddull
- ▶ **Targedu Fy CV:** Adborth ymarferol ar deilwra CV i ddisgrifiad swydd penodol, yn seiliedig ar eiriau allweddol a sgiliau
- ▶ **Adborth ar Lythyr Eglurhaol:** Adborth proffesiynol ar lythyrau eglurhaol a theilwra cyngor, gan gynnwys sgiliau meddal



Gweler careerset.com/bangor a chofrestrwch gyda'ch cyfeiriad e-bost personol trwy glicio ar 'Alumni sign up' a rhoi'r cod "**BANGORGRAD**"

Wrth reswm, gallwch hefyd drefnu apwyntiad gydag ymgynghorydd i gael adborth ar eich CV a cheisiadau.



careerset.com/bangor

Career **Set**

ASESIADAU RECRIWTIO AC YMARFER CYFWELIADAU

Oherwydd i chi raddio o Fangor, gallwn roi mynediad am ddim i chi at Graduates First, llwyfan sy'n rhoi cyfle i chi ymarfer profion addasrwydd safonol diwydiannol, gwneud cyfweiliadau ffug ar fideo a chwblhau profion rhifiadol a rhesymu a wnaiff eich helpu chi baratoi at eich cyfweiliad nesaf.

Gallwch gael mynediad iddo trwy'r cod QR isod. Bydd angen i chi fewngofnodi'n personol, e-bostiwch eich cais at cefnogigraddedigion@bangor.ac.uk

Gallwn hefyd gynnig ffug gyfweiliadau a sesiynau trosolwg y ganolfan asesu.



graduatesfirst.com/university-career-services/bangor



YSTYRIED ASTUDIAETH ÔL-RADD?

Mae digon o gymorth ar gael os ydych yn ystyried astudiaeth ôl-radd fel opsiwn.

Gallwn drafod yr opsiynau a'ch helpu gyda'ch ceisiadau.

Rydym yn cynnig ystod eang o opsiynau yma ym Mangor:


bangor.ac.uk/cy/astudio/ol-raddedig



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



HWB MYFYRWYR RHYNGWLADOL I CHWILIO AM SWYDDI YN Y DEYRNAS UNEDIG



I fyfyrwr rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig, mae'n cymryd amser i ddod o hyd i swydd Fisa Gweithiwr Crefftus. Rhaid chwilio trwy restrau swyddi i ddod o hyd i gyfleoedd gyda chyflogwyr a wnaiff noddi Fisa Gweithiwr Crefftus. Rydym wedi partneru gyda Student Circus i hwyluso pethau i chi!

Cofrestrwch i chwilio am swyddi ac interniaethau:



bit.ly/3NmJRT4

DEFNYDDIO LinkedIn

Arf ar-lein yw LinkedIn ar gyfer rhwydweithio'n broffesiynol, sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau cyfredol mewn diwydiant yn ogystal â chael hyd i gyfleoedd am waith. Mae hefyd yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â'ch ffrindiau ar y cwrs a staff academiaidd.

O ymgeisio am swyddi, mae'n bwysig bod gennych bresenoldeb digidol proffesiynol, ac mae creu proffil LinkedIn yn ffordd dda o ddechrau (mae sicrhau bod eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol naill ai'n breifat neu'n broffesiynol yn bwysig iawn hefyd). Ymunwch â'n grŵp Cyflogadwyedd Prifysgol Bangor i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflogadwyedd.

Yn yr erthygl hon mae awgrymiadau ynglŷn â gwneud yn fawr o'ch cyfrif:
nationalcareers.service.gov.uk/careers-advice/create-a-linkedin-profile



BYDDWCH FENTRUS

Mae digon o gefnogaeth a gweithgareddau i helpu graddedigion wella eu sgiliau menter a chyflogadwyedd.



A oes gennych syniad busnes?

Mae Cefnogaeth ar gael i Gychwyn Busnes

Gall ein mentor busnes roi cefnogaeth gyfrinachol un-i-un am ddim i chi a'ch helpu chi ganfod bwsariaethau ariannol. Trefnwch apwyntiad drwy anfon e-bost atom: b-fentrus@bangor.ac.uk

Gweithdai a Digwyddiadau

Datblygwch eich sgiliau menter a chael hwyl yr un pryd! Mae'r pynciau'n cynnwys Rhwydweithio, Sut i Weithio'n Llawrydd neu Fod yn Ymgynghorydd, Ymwybyddiaeth Fasnachol a mwy.





*Cysylltais â Byddwch Fentrus i ddechrau
fy siwrnai entrepreneuriaidd. Diolch
i'r gefnogaeth barhaus, llwyddais
i ddechrau partneriaeth gyda
chydweithiwr o'r Brifysgol, ac yn fwy
diweddar agor cwmni cyfyngedig.*



**BYDDWCH FENTRUS
ENTERPRISING**



www.bangor.ac.uk/skills-and-employability/b-enterprising-team.php.cy



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Gwasanaeth Gyrfaoedd
a Chyflogadwyedd
Careers and
Employability Service

PODLEDIAD BE' NESAI'

Ddim yn siŵr beth i'w wneud nesaf? Mae Be' Nesa' yn bodlediad gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.

Gallwch wrando mewn gwahanol leoedd, gan gynnwys yr Hwb Cyflogadwyedd , Acast , Spotify, Deezer, Amazon Music a Jiosaavn



[shows.acast.com/
648709335589fb1001138d562](https://shows.acast.com/648709335589fb1001138d562)



I BLE'R AIFF EICH CYMHWYSTER Â CHI?

Rhannwch eich llwyddiant!

15 mis ar ôl diwedd eich cwrs byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi gwblhau'r arolwg Deilliannau Graddedigion. Dyma arolwg cymdeithasol blynyddol mwyaf y Deyrnas Unedig ac mae'n dangos safbwyntiau a statws presennol y graddedigion diweddar.

Pam ddylech chi gwblhau'r arolwg?

Nod yr arolwg yw helpu'r myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol gael cipolwg ar y cyrchfannau a'r cyfleoedd posib sydd o ran gyrfaoedd. Bydd eich ymatebion yn werthfawr a byddant yn ein helpu ni werthuso'r cyrsiau a bydd y canlyniadau hefyd yn llywio polisi addysg uwch. Bydd eich gwybodaeth yn ddienw ac fe'i cedwir yn ddiogel ac yn gyfrinachol ym mhob cam o'r arolwg.



Sut y gwnawn ni hynny?

Cysylltw'n â chi gydag e-bost oddi wrth **bangor@graduateoutcomes.ac.uk** i ofyn i chi gwblhau'r arolwg, ac efallai y bydd neges destun neu alwad ffôn yn dilyn.

Mae'n cymryd tua 10 munud i gwblhau'r arolwg ar-lein, neu ychydig yn hirach os cysylltw'n â chi i'w gwblhau dros y ffôn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael:
graduateoutcomes.ac.uk

**AROLWG
HYNT
GRADDEDIGION**



SWYDDFA DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU CYN-FYFYRWYR

Mae gan Brifysgol Bangor dros 120,000 o gynfyfyrwyr ledled y byd ac ar ôl graddio byddwch yn dod yn rhan o'r rhwydwaith byd-eang hwnnw.

Bydd Tîm Datblygu a Chysylltiadau'r Cyn-fyfyrwyr yn eich helpu chi gadw mewn cysylltiad â'ch alma mater ac â'ch gilydd drwy anfon egyrchlythyrau misol ac i'ch gwahodd i aduniadau a digwyddiadau perthnasol. Sicrhewch fod gennym eich manylion cyswllt cyfredol bob amser trwy lenwi ein ffurflen ar-lein bangor.ac.uk/cy/alumni

Ebost: alumni@bangor.ac.uk



DYCHWELYD I FANGOR AR YMWELIAD?

**Pam na threfnwch chi i ddod i
siarad â'r myfyrwyr am eich bywyd
a'r 'byd go iawn' ar ôl i chi raddio?**

Mae cyn-fyfyrwyr y Brifysgol yn darparu cyngor
hanfodol, perthnasol ac ymarferol ynglŷn â'r isod:

- ▶ **Yr hyn y dylech ac na ddylech ei
wneud wrth chwilio am swyddi**
- ▶ **Y llwyddiannau a'r aflwyddiannau wrth wneud cais am swydd?**
- ▶ **Pa sgiliau ydych chi'n eu defnyddio fwyaf yn eich swydd newydd**
- ▶ **Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol pe
baech chi'n dechrau yn y Brifysgol eto**

Gallai hynny eich helpu chi gyda'ch datblygiad proffesiynol
personol, a chyfrannu at gynnal enw da'r Brifysgol.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth: gyrfaoedd@bangor.ac.uk

